**Cyngor Dinas Caerdydd**

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**
**This document is available in English**

## CAIS AM FAN CROESI I GERBYDAU
## TELERAU AC AMODAU

1. Caiff pob safle ei asesu'n unigol ac yn ôl safonau presennol y Cyngor. Nid fydd gosodiadau tebyg mewn ardal yn golygu y caiff cais ei gymeradwyo'n awtomatig. Nid yw mannau croesi hŷn, hanesyddol yn yr un ardal o reidrwydd yn golygu y caiff man croesi newydd ei gymeradwyo.

2. Bydd yr ymgeisydd yn gyfrifol am bob cost adeiladu ar gyfer y man croesi gan gynnwys yr holl ffioedd. Os ydych chi wedi'ch cofrestru'n anabl mae'n bosibl y byddwch â hawl i Grant Cyfleusterau Anabledd ac fe'i cynghorir i gysylltu â'r tîm Therapi Galwedigaethol ar 029 2023 4222 i gael rhagor o wybodaeth.

3. Fe'ch cynghorir i gael caniatâd am y man croesi cyn i chi ddechrau gwaith ar eich eiddo oherwydd byddwch yn atebol am gostau unrhyw waith aflwyddiannus a wneir ar eich eiddo, yr eir iddynt er mwyn sicrhau bod modd defnyddio lleoliad y man croesi y cytunwyd arno.

4. Mae'n rhaid cael caniatâd cynllunio ar gyfer pob man croesi i gerbydau ar lwybrau Dosbarthiadol. Mae'n rhaid cael copi o ganiatâd cynllunio cyn gwneud cais am fan croesi i gerbydau. Cysylltwch â'r adran gynllunio ar 02922 330805 i gael rhagor o wybodaeth.

5. Os ydych yn denant Cyngor, Tai neu Breifat, rhaid cael cymeradwyaeth ffurfiol gan eich landlord ar gyfer man croesi i gerbydau. Mae'n rhaid cael caniatâd ysgrifenedig cyn y gellir cymeradwyo'r cais.

6. Dan Ddeddf Priffyrdd 1980, ni chaniateir i ddŵr lifo o eiddo preifat ar draws troedffordd at y briffordd. Bydd rhaid cyfeirio dŵr wyneb o'ch eiddo i system ddraenio o fewn ffiniau eich eiddo eich hun.

7. Os nad yw'n rhydyllog, bydd rhaid cael Caniatâd Cynllunio ar gyfer yr arwyneb ar eich llawr caled, ffoniwch yr adran gynllunio ar 029 2233 0805 i gael rhagor o wybodaeth.

8. Oherwydd y posibilrwydd o gyfyngu ar nifer y lleoedd parcio ar y stryd i'r gymuned ehangach, ni chaniateir dau fan croesi ar gyfer un eiddo, oni bai y gellir profi bod hynny o fudd diogelwch uniongyrchol neu os nad yw hynny'n debygol o gael effaith negyddol ar y cyfleusterau parcio ar y stryd.

9. Os yw ymgeisydd yn symud man croesi presennol i gerbydau o fewn tir blaen ei eiddo, bydd gofyn i'r ymgeisydd ddisodli'r hen fan croesi diangen â throedffordd gan ddefnyddio deunyddiau sy'n

cyd-fynd â’r droedffordd gyfagos.

10. Mae’n debygol iawn y caiff Croesfan Gerbydau ei gwrthod os bwriedir mynd iddi ar draws lle parcio sy’n bodoli eisoes, neu le parcio i breswylwyr.

11. Os yw'r man croesi arfaethedig yn agosach na 10 metr i gyffordd, byddai’n creu perygl difrifol a chaiff y cais ei wrthod. Os yw’r eiddo wedi’i leoli yn uniongyrchol ar gyffordd dwy ffordd, fel arfer bydd yn fwy diogel lleoli’r mynediad ar yr isffordd ar yr ochr.

12. Ni chaiff unrhyw fan croesi unigol fod yn fwy na 3 metr o led. (y Lleiafswm yw 2.4m). Ni chaiff unrhyw fan croesi dwbl fod yn fwy na 4.8 metr o led. Mae’n rhaid i ddyfnder y cwrt blaen fod yn 4.8 metr o leiaf er mwyn sicrhau nad yw blaen neu gefn cerbyd yn ymestyn dros y droedffordd gyhoeddus. Gall cerbydau sy’n ymestyn dros y droedffordd fod yn destun erlyniad. Mae’n rhaid i gerbydau gael eu parcio ar yr eiddo ar 90 gradd i’r cwrbyn er mwyn helpu gyda pharcio.

13. Dylid adeiladu pen blaen y llawr caled i gyd-fynd â chefn y droedffordd bresennol. Mae hyn yn lleihau’r posibilrwydd y bydd dŵr o’r briffordd yn llifo i mewn i eiddo preifat. Efallai y bydd rhaid i berchnogion tai addasu lefel y tir o fewn ffin eiddo i sicrhau bod ramp digonol i atal gwaelod cerbydau rhag crafu yn erbyn y llawr caled wrth ddefnyddio’r man croesi i fynd i mewn ac allan o’r eiddo.

14. Gall cambr uchel iawn neu fan croesi ar ogwydd sylweddol hefyd achosi problemau tirio ar gyfer rhan flaen, rhan ôl neu’r ddwy ran sy’n ymestyn dros olwynion y cerbyd. Gall y lefelau tir a graddiant presennol gyfyngu ar y math o gerbyd a all ddefnyddio man croesi penodol.

15. Os oes gennych borth, ffenestri bae, neu risiau yn arwain at eich drws ffrynt, yna bydd rhaid ystyried y rhain o safbwynt faint o le sydd i barcio’ch car. Efallai y bydd angen ystyried safle eich drws ffrynt hefyd, ac os oes lle ar gael ar ochr eich tŷ o fewn ffiniau eich eiddo, efallai y bydd yn rhaid ystyried hwnnw yn eich cais.

16. Unrhyw gelfi stryd (fel polion lampau, cysgodfeydd bysys, ayyb.) yng nghyffiniau eich gwaith, bydd y cais yn destun arolygiad gan y Cyngor er mwyn asesu a oes angen rhoi cliriad o 1 metr o leiaf i unrhyw gelfi stryd ac a yw'n ymarferol. Mae’n rhaid i wal neu ffens bresennol yn union y tu ôl i gelfi'r stryd aros er mwyn amddiffyn celfi'r stryd. Os bydd rhaid symud celfi stryd, yr ymgeisydd fydd yn gyfrifol am dalu costau’r gwaith yma. Cysylltwch â’r adran Goleuadau Stryd ar 029 2233 0909 i gael rhagor o wybodaeth.

17. Ni chaiff Coed Stryd eu tynnu i wneud lle i fan croesi i gerbydau. Os yw man croesi yn debygol o effeithio ar wreiddiau coeden, yna caiff y cais ei wrthod.

18. Os oes safle bws neu fesurau arafu traffig (twmpathau ffordd) croesfan pelican sebra neu gyfleuster croesi gostyngedig ar gyfer pobl sy’n agored i niwed yn uniongyrchol y tu allan i’ch eiddo, mae’n bosibl na chaiff eich cais ei gymeradwyo.

19. Os ydych yn bwriadu gosod gatiau ar eich dreif, mae’n rhaid i’r gatiau agor am i mewn i’ch eiddo.

20. Caiff mannau croesi eu cymeradwyo ar y sail y bydd cerbydau’n gyrru ymlaen allan i’r briffordd.

21. Os caiff caniatâd ei wrthod am unrhyw reswm, nid oes unrhyw broses apelio, cewch chi ofyn am adolygiad y mae’n rhaid i chi wneud cais amdano yn rhoi'r rheswm pam nad yw'r gwrthodiad yn cydymffurfio â'r Telerau a'r Amodau; NI CHAIFF y ffi weinyddu am eich cais ei had-dalu.

22. Os bydd y cais hwn yn llwyddiannus rhaid cwblhau’r gwaith adeiladu cyn pen 6 mis o ddyddiad cymeradwyo’r cais.

23. Mae’n rhaid i’r gwaith adeiladu gael ei wneud gan gontractwr sydd wedi’i achredu yn unol â Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 ac sy’n ddeiliad Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus. Bydd angen i’r Contractwr gofrestru a gwneud cais am Hysbysiad Agor Ffordd yn unol â Deddf Priffyrdd 1980.

24. Cyn bod unrhyw waith yn dechrau ar safle, rhaid cyflwyno Hysbysiad Agor Ffordd i'r Cyngor Sir i’w gymeradwyo. Os bydd y gwaith yn dechrau heb ei gymeradwyo, bydd yr Ymgeisydd yn agored i Drosedd dan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991, Adran 51 (1).

25. Ar ôl cwblhau’r gwaith cynhelir archwiliad gweledol i sicrhau bod saernïaeth y man croesi’n bodloni’r manylebau gofynnol. Os nodir unrhyw ddiffygion yn y gwaith, cewch wybod bod rhaid i chi gywiro’r rhain cyn pen 28 diwrnod. Os bydd Cyngor Sir Caerdydd o’r farn bod y gwaith yn anfoddhaol yna byddwn yn trefnu bod rhywun arall yn gwneud y gwaith a chi fydd yn gyfrifol am dalu’r costau hynny.

26. Er mwyn cydymffurfio â gofynion y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith mae’n rhaid i chi gysylltu â'r sefydliadau canlynol i gael manylion am unrhyw beirianwaith ac offer tanddaearol y gall y gwaith dan sylw effeithio arnynt. Os bydd rhaid trefnu unrhyw ddargyfeiriad neu waith diogelu yn yr ardal gyfagos, y cwsmer fydd yn gyfrifol am dalu’r costau hynny.

| | |
|---|---|
| British Telecom | Dŵr Cymru Welsh Water |
| Virgin Media | Vodaphone |
| Network Rail | Energis Street Works Office |
| National Grid | Asiantaeth yr Amgylchedd - Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Western Power Distribution | Wales & West Utilities |